# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 4

NEWIDIADAU MEWN TREFNIADAU GWEITHREDIAETH

### PENNOD 1

MABWYSIADU FFURF WAHANOL AR WEITHREDIAETH

*Dehongli*

**46 Newid mewn trefniadau gweithrediaeth y mae'n ofynnol ei gymeradwyo mewn refferendwm.**

At ddibenion y Bennod hon, bydd yn ofynnol cymeradwyo newid mewn trefniadau gweithrediaeth mewn refferendwm os gweithrediaeth maer a chabinet yw—

(a) ffurf bresennol y weithrediaeth, neu

(b) ffurf arfaethedig y weithrediaeth.

**47 Dehongli**

Yn y Bennod hon—

ystyr “cynigion” (“*proposals*”) yw cynigion o dan adran 38;

ystyr “ffurf arfaethedig ar weithrediaeth” (“*proposed form of executive*”) yw'r ffurf ar weithrediaeth y mae awdurdod lleol, yn ei gynigion, yn arfaethu dechrau ei gweithredu;

ystyr “ffurf bresennol ar weithrediaeth” (“*existing form of executive*”) yw'r ffurf ar weithrediaeth sy'n cael ei gweithredu gan awdurdod lleol sy'n gwneud cynigion;

ystyr “newid mewn trefniadau gweithrediaeth” *(“change of executive arrangements”*) yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth a gynigir yn y cynigion.